Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

ROWLAND, Syr JOHN (1877 - 1941), gwas sifil

Enw: John Rowland
Dyddiad geni: 1877
Dyddiad marw: 1941
Priod: Mair Rowland (née Lewis)
Rhiant: Margaret Rowland
Rhiant: John Rowland
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwas sifil
Maes gweithgaredd: Addysg; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

mab John a Margaret Rowland; ganwyd 1 Mehefin 1877 ym Mhenbont-fach, Tregaron. Cafodd ei addysg yng ngholeg technegol Caerdydd a choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ac ar ôl gorffen ei gwrs coleg yn 1904 aeth yn athro ysgol i Gaerdydd. Yno cymerodd ran flaenllaw yn y bywyd crefyddol a diwylliannol, a thynnu sylw David Lloyd George. Daeth yn ysgrifennydd preifat i'r gŵr hwnnw yn 1905 a dal y swydd hyd 1912. Yn 1911 penodwyd ef yn aelod o'r Comisiwn Yswiriant yng Nghymru, ac yn 1930 codwyd ef yn gadeirydd Bwrdd Iechyd Cymru. Ymddeolodd o'r swydd hon yn 1940; bu farw yng Nghaerdydd, 2 Ionawr 1941, a'i gladdu ym mynwent y ddinas.

Priododd 1902, Mair, merch David Lewis, Llanafan, a bu iddynt dri mab. Gwnaed ef yn M.V.O. yn 1911, C.B.E. yn 1918, a C.B. yn 1922; urddwyd ef yn farchog yn 1938.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Who's who?, 1941

Western Mail, 3 Ionawr 1941

The Welsh Gazette, 9 Ionawr 1941

Percy E. Watkins, *A Welshman Remembers. An autobiography, etc.* (Caerdydd 1944), 1944

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821216

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Ellis, T. I., (1970). ROWLAND, Syr JOHN (1877 - 1941), gwas sifil. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-ROWL-JOH-1877

Copïo'r cliprwydd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government